

Dathlu'r Hen Galan yng nghwmni'r Fari Lwyd

Nos Fawrth 14 Ionawr, 6yh

Annwyl Rieni/ Warcheidwaid

Eleni mi fyddwn ni'n cynnal noson i ddathlu'r Hen Galan ar nos Fawrth y 14eg o Ionawr. Mi fyddwn ni'n cwrdd yn yr ysgol am 6yh, lle bydd cyfle i ddysgu'r hen benillion yng nghwmni Jermey Turner, cyn mynd ar daith gyda Jeremy a'r Fari Lwyd o amgylch ychydig o dai yn ardal yr ysgol yn canu. Mi fyddwn ni'n dychwelyd wedyn i'r ysgol am luniaeth ysgafn ac ychydig o straeon yng nghwmni Jeremy.

Mae'r diwgyddiad am ddim, ond codi'r tâl am y lluniaeth, gydag elw'r noson yn mynd at Ward Angharad, Ysbyty Bronglais.

Noder os gwelwch yn dda y byddwn ni'n teithio ar hyd y ffordd fawr, felly rhaid i oedolyn fod yn gyfrifol am bob pentyn.

Gobeithio y gallwch chi ymuno â ni i ddathlu'r traddodiad Cymreig hwn.

Beth yw'r Fari Lwyd?

Mari Lwyd yw'r enw a roed ar y pen ceffyl yr arferai partiön ei gludo o amgylch adeg y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn Ne Cymru yn bennaf.

Yn ôl y traddodiad, byddai'r parti'n addurno'r pen ceffyl gyda rhubannau a lliain wen, ac yn ei dywys o dŷ i dŷ. Wedi cyrraedd y cartrefi byddai'r parti yn canu pennill yn gofyn am hawl i ganu a mynediad i'r tŷ am ymborth. Mi fyddai'r preswylwyr wedyn yn canu pennill yn ôl yn herio'r parti gyda llawer o dynnu coes ac esgusodion pam na fedren nhw ddod i'r tŷ. Pwnco yw'r enw ar y penillion y genid yn ôl ac ymlaen rhwng y parti a'r preswylwyr. Wedi cael mynediad i'r tŷ, fe fyddai'r parti yn cael cacen, cwrw, ac ar adegau rhodd ariannol, cyn canu pennill ffarwel a symud ymlaen i'r tŷ nesaf.



Celebrating the ‘Hen Galan’ with the Mari Lwyd

Tuesday, 14 January, 6pm

Dear Parent/Guardian

This year, we will be holding an evening to celebrate the ‘Old New Year’ (Yr Hen Galan) on Tuesday the 14th of January. We will be meeting at the school at 6pm, where we will have an opportunity to learn the old verses in the company of Jeremy Turner, before going out with the Mari Lwyd to visit some of the houses near the school. We will return to the school for light refreshments and some storytelling with Jeremy.

The event is free, but there will be a charge for the refreshments, with all proceeds going to Angharad Ward, Bronglais Hospital.

Please note that we will be travelling along the main road, so all children must be accompanied by an adult.



We hope you can join us to celebrate this Welsh tradition.

What is the Mari Lwyd?

Mari Lwyd is the name given on the horse’s head that parties used to take to visit houses as part of the tradition at Christmas and the New Year, mainly in South Wales.

According to the tradition, the party would decorate the horse’s head with a white sheet and ribbons, before taking it from house to house. Once at the house, they would sing a verse to ask permission to keep singing and refreshment. The householders would then sing a verse back challenging the party, and pulling their leg, offering excuses as to why they could not come into the house. The party and the householders would then sing verses back and forth – a tradition called *Pwnco*. Once they had gained admittance, the party would receive cake and ale, and in some instances a financial gift. They would then sing a farewell verse, before moving on to the next house.